Canllawiau ar gyfer Lleoliadau: Eich Eiddo fel Lleoliad Posibl ar gyfer Ffilm

Beth yw 'Sgrin Cymru'?

Yr enw yn wreiddiol oedd 'Comisiwn Sgrin Cymru', a chafodd ei lansio yn swyddogol ym mis Tachwedd 2002. Mae'r gwasanaeth lleoliadau hwn ar gyfer Cymru gyfan, ac yn rhan o Lywodraeth Cymru, gan ddod o dan dîm y Sector Creadigol. Rydym yn cynnig gwasanaeth proffesiynol am ddim i'r cwmnïau hynny sy'n ffilmio yng Nghymru. Rydym wedi helpu ar nifer o gynyrchiadau yn y gorffennol, o sioeau teledu poblogaidd fel *Doctor Who*; *Sherlock* a *Stella*, i ffilmiau mawr fel *Harry Potter and the Deathly Hallows*, *Wrath of the Titans* a *Snow White and the Huntsman*.

Sut mae rhaglenni teledu a ffilmiau yn dod o hyd i leoliad?

Mae Rheolwyr Lleoliad yn cael eu cyflogi fel arfer gan gwmnïau cynhyrchu i chwilio am leoliadau ar gyfer rhaglenni a ffilmiau. Mae'r Rheolwyr Lleoliadau yn cael gweld ein cronfa ddata fawr o leoliadau er mwyn iddynt weld pa fathau o leoliadau sydd ar gael yma yng Nghymru. Rydym yn parhau i ddatblygu ein cronfa ddata ac yn chwilio am leoliadau newydd i'w cofrestru drwy'r amser.

Beth yw lleoliadau?

Gellir defnyddio rhywbeth, rhywle fel lleoliad; mae'r ymholiadau a ddaw i law yn amrywiol tu hwnt. Mae cwmnïau ffilmio yn gofyn am bob mathau o bethau, o un ystafell fechan i gestyll a ffatrïoedd mawrion.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cofrestru?

Os ydych yn cofrestru gyda ni, rydych yn penderfynu a hoffech i gwmni cynhyrchu ddefnyddio y tu mewn i'ch eiddo, y tu allan, neu'r eiddo i gyd. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich manylion, byddwn yn ystyried a yw eich eiddo yn addas ar gyfer unrhyw ymholiad. Os fydd eich eiddo yn addas, byddwn yn anfon lluniau ohono a rhywfaint o wybodaeth sylfaenol i'r un sy'n holi. Os ydynt yn hoffi eich eiddo, byddant yn cysylltu â ni ac yna byddwn yn rhoi eich manylion i'r cwmni cynhyrchu er mwyn iddynt gysylltu â chi yn uniongyrchol a chewch wedl a oes ganddynt ddiddordeb yn y prosiect.

Pam ddylwn i ystyried cofrestru?

Gall defnyddio eich cartref neu eich eiddo busnes fod yn brofiad cyffrous proffidiol, unwaith y byddwch yn deall y broses gynhyrchu a'r prosesau sy'n rhan o hynny. Os y cewch eich dewis, mae'n gyfle gwych i weld eich eiddo ar y sgrîn. Hefyd, pan fydd cwmni cynhyrchu yn ffilmio mewn lleoliad, byddant yn talu ffi cyfleuster. Mae'r swm yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis cyllideb gyffredinol y cynhyrchiad, am faint o amser y byddant yn defnyddio'r eiddo a faint o darfu fydd y ffilmio yn ei achosi. Os fyddant, er enghraifft, am ddefnyddio'r tŷ i gyd, trafodwch ble y byddwch chi a'ch teulu yn byw yn ystod y ffilmio a'r costau byw y bydd hyn yn ei olygu.

Sut fyddaf i'n cofrestru?

Cewch gofrestru'n uniongyrchol drwy'r wefan - www.walesscreen.com a chlicio ar *Register* neu os fyddai'n well gennych, gallwn anfon e-bost neu anfon ffurflen gofrestru atoch i'w llenwi. Mae'n wasanaeth sy'n hollol ddi-dâl. Unwaith inni dderbyn eich ffurflen gofrestru byddwn yn ychwanegu y

manylion i'n cronfa ddata yn ogystal â rhai delweddau digidol, ar ein gwefan. Cofiwch na fyddwn byth yn cyhoeddi manylion cyswllt perchnogion eiddo na'r union leoliad ar ein gwefan.

Lluniau ar Leoliad

Hoffem ddewis da o luniau clir, digidol y tu mewn a'r tu allan i'ch eiddo fydd yn rhoi dealltwriaeth cyffredinol da o'ch lleoliad yn ei gyd-destun. Os yw nesaf at y briffordd er enghraifft, byddai'n ddefnyddiol dangos hyn yn un o'r lluniau. Os oes gan y camera lens i chwyddo lluniau, agorwch ef cymaint â phosib, h.y. peidiwch â chwyddo i mewn i'r llun. Naill ai anfonwch e-bost inni o'r lluniau neu copïwch hwy ar CD neu gof bach USB a'u postio at y swyddfa berthnasol. Os nad oes modd ichi dynnu lluniau, gadewch inni wybod ac efallai y bydd modd inni drefnu i ymweld i dynnu lluniau ein hunain.

Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau am ffilmio ar fy eiddo?

CHI! Mae bob dim yn dibynnu ar sut y byddwch yn teimlo ynghylch y syniad, faint o ffilmio fydd a'r amseru. Unwaith y bydd gan gwmni cynhyrchu ddiddordeb yn eich eiddo byddwn yn trefnu iddynt gysylltu â chi yn uniongyrchol i drafod y cynhyrchiad. Dylid trefnu contract iawn a ffïoedd addas wedyn rhyngddoch â'r cwmni cynhyrchu. Mae'n bosib y byddai o fudd ichi gysylltu â chyfreithiwr nawr.

Pa mor aml fyddant yn debygol o gysylltu â mi?

Mae hwn yn gwestiwn anodd i'w ateb. Yn y gorffennol rydym wedi ateb cannoedd o ymholiadau ac wedi paru cwmnïau cynhyrchu gyda sawl eiddo yn lleol.

Mae cwmnïau Ffilm a Theledu ar leoliad drwy gydol y flwyddyn mewn bob mathau o leoedd yn y DU. Er na allwn warantu y bydd eich eiddo'n cael ei ddefnyddio, unwaith y bydd eich manylion gennym, gallwn sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'ch eiddo. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn clywed gennym am amser maith, mae eich manylion gennym, ac yn aros i gael eu "darganfod"!

Beth i'w ddisgwyl?

Gan ddibynnu ar y math o gynhyrchiad, gallant amrywio'n fawr o ran maint – o griw o 3 o bobl i dros 100. Felly hefyd, mae'r ffïoedd sy'n cael eu talu gan gynhyrchiad yn amrywio yn ôl maint y cynhyrchiad, y math o eiddo ac i ba raddau y caiff yr eiddo ei ddefnyddio. Er y gall Sgrîn Cymru gynnig cyngor am ffïoedd lleoliadau, ni allwn ddechrau ar unrhyw drafodaethau cyfreithiol. Dylai perchennog lleoliad ddisgwyl ffi sy'n addas ar gyfer y tarfu o ganlyniad i'r ffilmio. Bydd cwmnïau cynhyrchu yn aml yn chwilio am leoliadau eraill os ydynt yn teimlo bod perchennog yn gofyn gormod am leoliad.

Mewn rhai achosion mae'n bosib y byddai cynhyrchiad am ail-addurno neu newid y deunyddiau yn eich eiddo. Fel perchennog lleoliad mae'n bwysig ichi ddod i gytundeb gyda chynhyrchiad ynghylch yr hyn yr ydych yn hapus iddynt ei wneud ac i gael contract i adlewyrchu hyn. Dylai'r cwmni cynhyrchu sicrhau fod y lleoliad fel yr oedd yn wreiddiol wedi i'r ffilmio ddod i ben a dylent dalu am unrhyw ddifrod neu ddamweiniau.

Gallai cynhyrchiad darfu arnoch, ond yn y pen draw, mae'n brofiad positif i berchennog lleoliad, mae'n wych gweld eich eiddo ar y sgrîn.

Canllawiau Lleoliad - Crynodeb

- Unwaith y byddwn wedi cysylltu â chi y cam nesaf fydd rheolwr y cynhyrchiad yn cysylltu â chi. Maent yn gweithio'n llawrydd fel arfer ac yn cael eu cyflogi gan y cwmni cynhyrchu ar gyfer cynhyrchiad penodol. Weithiau maent yn ddieithr i'r ardal. Rydym yn gwneud pob ymdrech i'w croesawu a gwneud iddynt deimlo'n gartrefol.
- Trafodwch y prosiect yn fanwl gyda hwy. Holwch sut yn union y byddant yn defnyddio'r lleoliad a gofynnwch i weld y rhan perthnasol o'r sgript y bydd eich eiddo yn ymddangos ynddo.
- Penderfynwch yn union faint o ddyddiau fydd eu hangen ar gyfer y ffilmio.
- Trefnwch i gerdded drwy'r adeilad gyda'r cyfarwyddwr neu'r rheolwr cynhyrchu i benderfynu ar yr union ystafelloedd neu olygfeydd y tu allan y maent yn dymuno eu ffilmio.
- Trafodwch unrhyw rannau yr hoffech i'r criw gadw draw ohonynt.
- Trefnwch ble y bydd modd cadw yr offer a'r cerbydau.
- Penderfynwch pwy fydd â hawl i fod ar y lleoliad a sut fydd hyn yn cael ei sicrhau.
- Cytunwch ar y gofynion o ran clirio ar eu holau, bod yr eiddo yn cael ei adael fel ag yr oedd a'r amser y bydd y ffilmio'n dod i ben.
- Mae'n syniad da i fynd drwy unrhyw beth a allai ddod o dan y canllawiau iechyd a diogelwch a sicrhau bod gan y cwmni yswiriant atebolrwydd i'r cyhoedd.
- Mae gan y mwyafrif o gwmnïau cynhyrchu proffesiynol yswiriant sy'n cwmpasu rhentu trydydd parti ar gyfer difrod ac atebolrwydd i'r eiddo. Gallwch holi ynghylch hyn a gofyn am gopi cyn i unrhyw aelod o'r criw gyrraedd eich eiddo.
- Mae'n syniad da i lunio contract ffurfiol sy'n cynnwys rhwyfaint neu yr holl ganllawiau uchod yn ogystal â'r ffi.
- Mae'n bosib trafod y ffi fel arfer, ac mae'n dibynnu pa mor fawr yw'r ffilm a chyllideb y cwmni cynhyrchu. Dylech deimlo'n hapus â'r swm y cytunir arno.

  Yn fwy na dim, mwynhewch y profiad!

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill mae croeso ichi gysylltu â Sgrîn Cymru.